**COFNODION CYFARFOD YCHWANEGOL CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL A GYNHALIWYD AR ZOOM AM SAITH NOS LUN 29 MEHEFIN 2026.**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Siân Enfys Jones - Cadeirydd
Cynghorwyr: Celfyn Furlong, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.
**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol.

1. **YMDDIHEURIADAU –** Cynghorwyr: G.O. Jones, W.V. Owen a Sharon Parry.

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB** – Dim

3. **Grant Balchder yn eich Cymuned**

   Cytunwyd y byddai'r clerc yn cyflwyno cais am yr uchafswm o £13,208.88 ac y byddai'r holl arian hwn yn cael ei wario ar ffenestri newydd ac ailaddurno cysylltiedig ar gyfer neuadd y pentref.

4. **Cyfrifon 2025/26**

   Roedd yr Archwilydd Mewnol wedi cwblhau ei archwiliad o gyfrifon 2025/26 ac roedd copi o'r Ffurflen Flynyddol ac adroddiad yr Archwilydd Mewnol wedi'i gylchredeg i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod. Cadarnhaodd yr adroddiad fod y cyfrifon mewn trefn ac nad oedd unrhyw argymhellion ar gyfer sylw'r Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad, byddai'r Cadeirydd a'r SAC yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn anfon yr holl ddogfennau y gofynnwyd amdanynt at yr Archwilwyr Allanol.

**5** Cyfarfod nesaf 21 Gorffennaf 2026